Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfarfod Bwrdd: 5 Chwefror 2021**

---

**EITEM AGENDA: [4]**

---

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Arolwg Pobl 2020** |
| **Diben y papur:** | Rhoi gwybod i'r Bwrdd am y dadansoddiad manwl o Arolwg Pobl 2020, a gynhaliwyd ym mis Hydref |
| **Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd:** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r papur hwn ar Arolwg Pobl 2020 a rhoi eu sylwadau ar y cyflwyniad yn y cyfarfod. |
| **Swyddog sy'n cyflwyno'r papur:** | Natalie Pearson<br>Sharon Cross |
| **Papur wedi'i baratoi / ei gymeradwyo gan:** | Natalie Pearson |
| **Ymgysylltu / Barn Undebau Llafur** | Rydym wedi ymgysylltu â'r undebau llafur drwy gydol proses Arolwg Pobl 2020 a byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gam nesaf y gwaith o ddadansoddi a gweithredu. |
| **Dyddiad cyflwyno i'r ysgrifenyddiaeth:** | 28/01/21 |

## 1. Cefndir

1.1 Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn arolwg blynyddol a gynhelir gan Lywodraeth y DU sy’n rhoi cipolwg ar agweddau gweision sifil at weithio yn adrannau’r llywodraeth a’r gweinyddiaethau datganoledig, a’u profiadau yn y gwaith. Mae tua 100 o sefydliadau yn cymryd rhan yn yr Arolwg Pobl, gyda thros 400,000 o weision sifil wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan.

1.2 Cynhaliwyd yr Arolwg Pobl diweddaraf yn Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020. Roedd yr arolwg yn cynnwys set o gwestiynau craidd a ofynnwyd mewn arolygon blaenorol a chwestiynau newydd ar bynciau fel llesiant ac effeithiau COVID-19. Mae’r arolwg penodol hwn wedi rhoi cipolwg defnyddiol mewn cyfnod allweddol, wrth i staff ymateb i’r pandemig parhaus a pharhau i addasu i ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i hyn.

## 2. Canlyniadau Arolwg Pobl 2020

2.1 Yn bennaf, roedd canlyniadau Arolwg Pobl 2020 Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol iawn. Roedd canlyniadau bron bob un o’r cwestiynau wedi gwella ers cynnal yr Arolwg Ciplun ym mis Mawrth 2020. Roedd gwelliannau mawr mewn nifer o feysydd allweddol fel ymgysylltiad gweithwyr ac arweinyddiaeth a rheoli newid. Roedd perfformiad Llywodraeth Cymru wedi gwella o’i gymharu â Gwasanaeth Sifil ehangach y DU i’r graddau ei bod nawr yn perfformio yn well na’r trothwy ar gyfer 84% o’r cwestiynau craidd.

2.2 Roedd canlyniadau arolwg lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gael yn fewnol ym mis Rhagfyr ac fe gawsant eu cyhoeddi ar y fewnrwyd.

2.3 Mae’r canlyniadau ar gyfer Cyfarwyddiaethau Cyffredinol, i lawr i lefel Rhanbarth a Changen hefyd ar gael ar y fewnrwyd ar ddangosfwrdd canlyniadau ar-lein.

## 3. Trafodaeth y Bwrdd ar 5 Chwefror 2021

3.1 Bydd trafodaeth y Bwrdd yn canolbwyntio ar y cyflwyniad yn Atodiad 1, sy’n rhoi trosolwg o’r canfyddiadau allweddol o’r arolwg. Yn y cyfarfod, gofynnir i’r Bwrdd roi eu sylwadau ar y canfyddiadau ac awgrymiadau ynghylch camau gweithredu corfforaethol posibl.

**4. Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Bwrdd:

- nodi'r papur hwn ar Arolwg Pobl 2020, a;
- rhoi eu sylwadau ar y cyflwyniad yn y cyfarfod.

---

**Cyhoeddi**

Gellir ei gyhoeddi